**CYNGOR CYMUNED LLANFROTHEN**
**COFNODION CYFARFOD 12 IONAWR 2026**
19.00 yn Y Ganolfan, Llanfrothen

## 1. Presennol

Glyn Griffiths, Siân Cwper, Cenwyn ap Tomos, Beti Williams, June Jones

**Clerc:** Huw Rowlands

**Cadeirio:** Nia Povey

## 2. Ymddiheuriadau

Dim

## 3. Datgan Diddordeb/Buddiant Personol

Dim

## 4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod 3 Tachwedd 2025.

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 3 Tachwedd 2025.

**Cynnig:** Nia Povey

**Eilio:** Beti Williams

## 5. Materion yn codi o'r Cofnodion

### 5.1 Ynni Cymunedol

Croesawyd a diolchwyd i Dafydd Watts am fynychu'r cyfarfod er mwyn trafod Ynni Cymunedol ymhellach.

Mae Ymddiriedolaeth Brondanw yn gefnogol i gynllun ynni cymunedol, ond fyddan nhw ddim am weithredu'r cynllun.

Bydd cytundeb Hydro Blaen-cwm rhwng Ymddiriedolaeth Brondanw a chyflenwr trydan yn dod i ben fis Mawrth 2026. Mae angen felly holi beth yw dyfodol y cynllun hwn.

Cytunwyd mai'r cam ymlaen fyddai sefydlu grŵp o gynrychiolwyr a thrigolion lleol er mwyn cael trafodaeth gychwynnol

### 5.2 Y Ganolfan

Bu trafodaeth efo Cyngor Gwynedd o ran oblygiadau terfynu les ac felly defnydd y cyngor cymuned o'r Ganolfan.

Mi fedr y cyngor cymuned benderfynu ildio'r brydles, ac eglurodd Cyngor Gwynedd y byddai'n rhai dilyn trefn briodol. Byddai'n rhaid i'r Pwyllgor

Rheoli gynnal cyfarfod cyhoeddus i ddilysu unrhyw benderfyniad i ildio'r brydles yn ogystal â chael caniatâd gan y Comisiynwyr Elusennau.

Ar ôl cwblhau'r cam hwn, bydd angen rhoi rhybudd o 3 mis i Gyngor Gwynedd, yn unol â darpariaeth Adran 27 o Ddeddf Landlord a Thenant 1954.

Byddai Cyngor Gwynedd yn disgwyl i'r eiddo gael ei ildio gyda meddiant gwag, gan sicrhau fod pob eiddo ac ati wedi mynd.

Os cytunir i waredu'r Ganolfan, bydd angen trafod lleoliad arall ar gyfer cyfarfodydd y cyngor cymuned.

Opsiwn arall yw gofyn i Gyngor Gwynedd a fyddai'n bosibl cael les ar delerau gwahanol i'r un sy'n bodoli yn barod, a gofynnwyd i'r Clerc holi Cyngor Gwynedd ar y posibilrwydd o hyn.

Mae Cyngor Gwynedd wedi gofyn a fydd Y Ganolfan, Llanfrothen ar gael ar gyfer etholiad Senedd Cymru fis Mai 2026. Cytunwyd y byddai hynny'n bosibl, oherwydd beth bynnag yw dyfodol Y Ganolfan, mi fyddai dal o dan reolaeth y cyngor cymuned bryd hynny.

**5.3 Goryrru Garreg, Llanfrothen a Gosod Cyflymder 20 m.y.a.**

Cytunwyd i drefnu cyfarfod safle efo Cyngor Gwynedd er mwyn cytuno ar leoliad gosod arwydd fflachio cyflymder ar y ffordd i mewn o'r Morfa am Garreg, Llanfrothen

**5.4 Mynwent Tan Lan**

Derbyniwyd Anfoneb am £1,800 gan Dylan Edwards am dorri gwair yn y fynwent.

**5.5 13 Garreg Frech**

Cysylltodd y Clerc efo Cyngor Gwynedd ac ADRA yn nodi fod pryder y gall y goeden Ywen yng ngardd 13 Garreg Frech gwympo ac achosi niwed i eiddo cyfagos.

Yn anffodus, ymateb Cyngor Gwynedd oedd bod y goeden ar dir preifat ac felly ni fedran nhw wneud dim.

Cafwyd ymateb tebyg gan ADRA, sef nad oeddynt am weithredu gan fod y goeden ar dir preifat, er y gallasai effeithio ar eu heiddo hwy.

Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu efo Scottish Power gan fod perygl i'r goeden effeithio ar y gwifrau cario trydan gerllaw.

**5.6 Cysgodfan Fysiau Llanfrothen**

Cwblhawyd y gwaith o adeiladu'r gysgodfan ddechrau mis Rhagfyr.

Derbyniwyd taliad o £7,500 gan Gronfa Gwynedd Ni Cyngor Gwynedd, a £500 gan Barc Cenedlaethol Eryri.  Disgwylir cyfraniad o £1,000 gan Ymddiriedolaeth Brondanw.

Bydd angen cydnabod y cyfraniadau ariannol yma ar blac yn y gysgodfan.

Mae'r fainc oedd ar safle'r gysgodfan wedi ei symud i'r Ganolfan

**5.7 Cwrs Diffribliwyr**

Mae elusen Calon Hearts yn fodlon darparu cwrs hyfforddiant i ddefnyddio diffribliwyr.  Byddant yn gwerthfawrogi cyfraniad rhesymol am eu costau teithio a'u hamser.

Cytunwyd y byddai'n gwneud synnwyr cynnal cwrs fyddai'n agored i'r cyhoedd, yn Siop a Chaffi Llanfrothen yn fuan gyda'r nos.  Bydd angen trafod niferoedd ac argaeledd y Siop a'r Caffi.

**5.8 Adroddiad Adran 6 – Bioamrywiaeth**

Mae'n rhaid i gynghorau cymuned lunio adroddiad yn crynhoi'r camau a'r ystyriaeth y maent wëid ei roi ar gyfer gwarchod a gwella bioamrywiaeth yn eu hardal.

Cymeradwywyd yr adroddiad.

**Cynnig:** Glyn Griffiths

**Eilio:** Cenwyn ap Tomos

**6. Materion Ariannol**

**6.1** Cyflog Clerc Tachwedd 2025 £559.04

**6.2** Cyflog Clerc Rhagfyr 2025 £559.04

**6.3** Yu Energy 10 Tachwedd 2025  - £19.06

Yu Energy 8 Rhagfyr 2025- £27.27

**6.4** Talu Cyngor Gwynedd, Arwydd Pont y Traeth, 7 Rhagfyr - £176.68

**6.5** Derbyn taliad SumUp i'r banc 3 Tachwedd 2025 - £7.79

**6.6** Derbyn taliad SumUp i'r banc 10 Tachwedd 2025 - £5.36

**6.7** Derbyn taliad SumUp i'r banc 14 Tachwedd  - £4.87

**6.8** Derbyn taliad SumUp i'r banc 17 Tachwedd 2025 - £10.71

**6.9** Derbyn taliad SumUp i'r banc 24 Tachwedd  2025 - £11.69

**6.10** Derbyn taliad SumUp i'r banc 25 Tachwedd  2025 - £4.87

**6.11** Derbyn taliad SumUp i'r banc 1 Rhagfyr 2025 - £2.92

**6.12** Derbyn taliad SumUp i'r banc 3 Rhagfyr 2025 - £1.95

**6.13** Derbyn taliad SumUp i'r banc 8 Rhagfyr 2025 - £4.87

**6.14** Derbyn taliad SumUp i'r banc 12 Rhagfyr 2025 - £4.87

**6.15** Derbyn taliad SumUp i'r banc 15 Rhagfyr 2025 - £4.87

**6.16** Derbyn taliad SumUp i'r banc 22 Rhagfyr 2025 - £14.62

**6.17** Derbyn taliad SumUp i'r banc 23 Rhagfyr 2025 - £2.92

**6.18** Derbyn taliad SumUp i'r banc 24 Rhagfyr 2025 - £5.85

**6.19** Derbyn taliad SumUp i'r banc 29 Rhagfyr 2025 - £10.71

**6.20** Derbyn taliad gan Fenter Y Ring am ddefnyddio'r Ganolfan

11Tachwedd 2022 - £120.00

**6.21** Derbyn taliad gan Gyngor Gwynedd tuag at y gysgodfan fws - £7,500

**6.22** Balans yn y prif gyfrif 30 Rhagfyr 2025 £835.09

**6.23** Balans yn y cyfrif cadw 30 Rhagfyr 2025 £38,167.05

**6.24** Penderfynu ar braesept 2026/27

Trafodwyd y gyllideb a'r gwariant tebygol hyd at 31 Mawrth 2026.

Cytunwyd i godi'r praesept ar gyfer 2026/27 o £12,800 i £13,300

**Cynnig:** Glyn Griffiths

**Eilio:** Cenwyn ap Tomos

**7. Gohebiaeth**

- Apêl Cronfa Cyfle i Bawb, Urdd Gobaith Cymru
- Cais am gefnogaeth i Eisteddfod yr Urdd, Ynys Môn 2026
- Cefnogaeth i Lwybr Llechi Eryri ddod yn Llwybr Cenedlaetholi

Cytunwyd i gyfrannu £100 tuag at Gronfa Cyfle i Bawb, Urdd Gobaith Cymru

**Cynnig:** Siân Cwper

**Eilio:** Glyn Griffith

Cytunwyd i gyfrannu £100 tuag at Eisteddfod yr Urdd, Ynys Môn 2026

**Cynnig:** Siân Cwper Eilio

**Eilio:** Cenwyn ap Tomos

Cytunwyd i gefnogi ymdrech Llwybr Llechi Eryri i ddod yn Llwybr Cenedlaetholi

## 8. Cynllunio

**Cais Cynllunio Drum House, NP5/68/T187B**

Cysylltodd asiant yr ymgeisydd yn gofyn a fedrai Cyngor Cymuned Llanfrothen ail ystyried y sylwadau ar y cais a ddanfonwyd at Barc Cenedlaethol Eryri. Amlygodd yr asiant mai dim ond Cyngor Cymuned Llanfrothen oedd ag unrhyw sylwadau negyddol.

Cysylltodd y Clerc efo'r asiant a dweud fod penderfyniad y cyngor cymuned yn unfrydol ac wedi ei wneud yn dilyn trafodaeth o'r mater.

Mater i Barc Cenedlaethol Eryri fydd gwneud penderfyniad terfynol ar y mater.

## 9. Materion Eraill

### 9.1 Baner Siop a Chaffi Llanfrothen

Mae'r faner bresennol wedi gwisgo yn y tywydd garw, ac fe ofynnwyd i'r Clerc archebu un arall yn ei lle.

### 9.2 Cais i osod bin halen yng Nghroesor

Cafwyd cais gan aelod o'r cyhoedd i osod bin halen yn Nghroesor.

Nid yw Cyngor Gwyned dyn darparu biniau mewn lleoliadau newydd, nac y neu lenwi a halen.

Felly byddai'n rhaid i'r cyngor cymuned ariannu'r bin o gost o £300-400, a byddai angen i'r trigolion lleol sicrhau ei fod yn cael ei lenwi.

Byddai'n rhaid I Gyngor Gwynedd gytuno ar unrhyw leoliad.

### 9.3 Groeslon Wern

Mae cerrig o'r afon yn cael eu golchi i'r ffordd yn y fan hyn. Mae Cyngor Gwynedd wedi gosod arwydd yn nodi'r perygl, ond mae angen datrysiad i'r broblem.

Penderfynwyd cysylltu efo Cyngor Gwynedd er mwyn gweld beth yw'r rheswm dros y broblem fan yn, a beth yw'r datrysiad posibl.

### 9.4 Ffos Ar y Tro Ger Ty'n y Coed

Mae'r ffos ar y tro ger Ty'n y Coed angen ei chlirio. Mae'r Cynghorydd Nia Povey wedi bod mewn cysylltiad efo Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn

sicrhau datrysiad, ond maen nhw yn dweud nad yw yn rhan o’u cyfrifoldebau.

Mae’r tirfeddiannwr yn anghytuno, yn nodi mai cyfrifoldeb Cyfoeth Naturiol Cymru yw clirio’r ffos, ac yn bryderus y bydd dŵr yn gorlifo i’w dir am nad yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn clirio’r ffos.

Bydd angen cysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru unwaith eto er mwyn ceisio datrysiad i’r mater.

| **Dyddiad y cyfarfod nesaf – 2 Mawrth 2026 am 7 yr hwyr** |
| --- |